Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 217 (Cy. 44)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) (Diwygio) 2024

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru ac mae'n diwygio Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) 2023 ("Gorchymyn 2023").

Mae'n hepgor erthygl 4(d) o Orchymyn 2023, a fyddai'n dwyn i rym ar 1 Ebrill 2024 ddarpariaethau sy'n ymwneud ag aelod cyswllt staff y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Nid oes angen y darpariaethau hynny ar 1 Ebrill 2024 oherwydd ni fydd y Comisiwn wedi ei staffio'n sylweddol ar y dyddiad hwnnw.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn hepgor erthygl 4(e) o Orchymyn 2023, sy'n dwyn i rym ddiwygiadau i Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac i reoliad 3(4) o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017. Mae'r diwygiadau hynny yn ganlyniadol ar ddiddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Nid oes angen y diwygiadau ar 1 Ebrill 2024 oherwydd ni fydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi cael ei ddiddymu ar y dyddiad hwnnw.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2024 Rhif 217 (Cy. 44)

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) (Diwygio) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Chwefror 2024* |
| *Yn dod i rym* | *15 Mawrth 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 148(2) a (3) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) (Diwygio) 2024.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Mawrth 2024.

**Diwygio Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) 2023**

**2.** Mae Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaeth Ddarfodol) 2023(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(**1**) 2022 dsc 1.
(**2**) O.S. 2023/919 (Cy. 144) (C. 52).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**3.** Yn erthygl 4, hepgorer paragraffau (d) ac (e).

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru
26 Chwefror 2024